Local Development Plan 2021 > 2036

Cyngor Caerdydd - Mai 2026

# Archwiliad CDLl Newydd Caerdydd

## Adroddiad ar y Broses o Asesu Safle Sipsiwn a Theithwyr




www.cdllcaerdydd.co.uk
02920 872088
CDLl@caerdydd.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English

STRONGER FAIRER GREENER

CARDIFF CAERDYDD

# Archwiliad o Gynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd

## Adroddiad ar y Broses o Asesu Safle Sipsiwn a Theithwyr

## Mai 2026

# Cynnwys


| | Page |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | 3 |
| 2. Adnabod Safle | 4 |
| 3. Meini Prawf Asesu Safle | 5 |
| 4. Canfyddiadau | 7 |
| 5. Casgliadau | 9 |
| | |
| Atodiad 1: Tabl sy'n crynhoi’r asesiad o Safleoedd | 10 |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r broses o ddewis safle a arweiniodd at ddyrannu safle ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr (Polisi H11) yng Nghynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLl) Caerdydd. Mae'r broses wedi'i harwain gan ddyletswyddau statudol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, Polisi Cynllunio Cymru (PCC), a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae hefyd wedi cael ei lywio gan nodi safleoedd posibl yn gadarn a meini prawf asesu safle cytunedig, a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid a'i gymhwyso'n gyson ar draws pob lleoliad posibl.

1.2 Pwrpas y broses asesu oedd sicrhau bod y Cyngor yn cynnal ymchwiliad trylwyr i ystod o safleoedd posibl sy'n gallu diwallu'r anghenion llety a nodwyd yn Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (ALlSTh) 2024.

**Cyd-destun Polisi a Deddfwriaethol**

1.3 Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr a sicrhau bod yr angen a nodwyd yn cael ei ddiwallu drwy ddarparu lleiniau priodol. Mae canllawiau cynllunio yn PCC yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ddyrannu digon o dir i ddiwallu'r angen ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, cymhwyso dull fesul cam o ran bioamrywiaeth a safleoedd dynodedig ac ystyried cyfyngiadau iechyd, diogelwch, amwynderau ac amgylcheddol.

1.4 Mae canllawiau manylach Llywodraeth Cymru wedi'u nodi yn *Cylchlythyr 5/2018 – Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Phobl Sioe* sy'n nodi disgwyliadau ar gyfer addasrwydd safleoedd, mynediad at wasanaethau, ystyriaethau amgylcheddol ac iechyd ac ymgysylltu â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Mae canllawiau manwl pellach ac egwyddorion lleoliadol Llywodraeth Cymru wedi'u nodi yn *Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr (2015)* gan gynnwys ffafriaeth dros safleoedd o 20 llain neu lai oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol, osgoi lleoliadau sy'n anaddas ar gyfer tai confensiynol a sicrhau amgylcheddau byw diogel, iach a hygyrch.

## 2. Adnabod Safle

2.1 Cyn dechrau'r asesiad, cynhaliwyd proses drylwyr i nodi ystod o safleoedd posibl ledled y ddinas yn dilyn dadansoddiad o'r ffynonellau posibl canlynol:

- Safleoedd awdurdodedig ac anawdurdodedig presennol, a safleoedd sy'n amodol ar ganiatâd llawn, dros dro neu bersonol neu dystysgrifau defnydd cyfreithlon.

- Cynhaliwyd ymchwiliad i'r potensial i reoleiddio, gweithredu, dwysáu neu ehangu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr presennol a chaniatadau.

- Safleoedd sy'n eiddo i Sipsiwn a Theithwyr – Aethpwyd ar ôl safleoedd a glustnodwyd gan Sipsiwn a Theithwyr yn ystod y cyfweliadau gwaith maes, a chysylltwyd â chynrychiolwyr allweddol Sipsiwn a Theithwyr sy'n adnabyddus i'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr leol i adnabod unrhyw safleoedd ychwanegol.

- Adolygwyd yr holl safleoedd ymgeisiol i wirio a oedd unrhyw dir preifat ar gael i'w ddefnyddio gan Sipsiwn a Theithwyr. Ystyriwyd bod safleoedd ymgeisiol sy'n eiddo i'r cyhoedd efallai ar gael, a chynhaliwyd trafodaethau gyda hyrwyddwyr preifat i bennu argaeledd.

- Tir sector cyhoeddus sbâr – Adolygwyd holl ddaliadau tir y Cyngor a Llywodraeth Cymru, a chynhaliwyd trafodaethau gyda swyddogion y Cyngor a rhanddeiliaid cyhoeddus eraill i sefydlu safleoedd posibl ar gyfer yr arolwg.

- Safleoedd strategol ac estyniadau trefol posibl – Ymchwiliwyd i'r cwmpas ar gyfer clustnodi tir o fewn dyraniadau tai mwy i gyflawni'r amcan o gyflawni cymunedau cymysg a chytbwys.

- Safleoedd sy'n eiddo i Gymdeithasau Tai (LCCau) – Cysylltwyd â chymdeithasau tai i asesu a oedd ganddynt unrhyw safleoedd posibl.

- Tirfeddianwyr Preifat – Gwnaed Galwad am Safleoedd drwy gysylltu ag asiantau lleol a thirfeddianwyr i adnabod unrhyw dir posib a ddelir gan dirfeddianwyr preifat neu ystadau mawr.

2.2 Arweiniodd y broses hon at nodi rhestr hir o 55 o safleoedd posibl, a aseswyd yn erbyn y meini prawf a restrir isod yn adran 3 yr adroddiad.

## 3. Meini Prawf Asesu Safle

3.1 Datblygodd y Cyngor set o feini prawf asesu cytunedig i sicrhau dull tryloyw, cyson a chydymffurfiol â pholisi. Cafodd y meini prawf hyn eu llywio gan ganllawiau Llywodraeth Cymru ac ystyriaethau polisi lleol.

3.2 Mae'r meini prawf yn disgyn i'r categorïau canlynol:

**1. Argaeledd**

- Eiddo’r Cyngor neu'n dirberchennog (cyhoeddus neu breifat) sydd yn fodlon gwerthu i'r Cyngor.

- Dim problemau cyfreithiol neu berchnogaeth fel perchnogaeth luosog, stribedi ransom, tenantiaethau, neu ofynion gweithredol.

**2. Cyfyngiadau**

**Polisi**

**Addasrwydd**

- Nid yw'r safle o fewn dynodiad rhyngwladol (AGA, ACA, Ramsar).

- Nid yw'r safle yn peryglu amcanion dynodiadau a gydnabyddir yn genedlaethol neu'n lleol (SoDdGA, SoBCN, GNL, SGBRh, Ardal Tirwedd Arbennig, Henebion, Adeiladau Rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth, Ardaloedd Archaeolegol Sensitif, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig ac adeiladau rhestredig lleol).

**Cyfyngiadau Ffisegol**

- Mae gan y safle fynediad derbyniol a diogel i'r ffordd, llwybr troed, a rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus (yn achos safle tramwy byddai angen i hwnnw fod i'r prif rwydwaith priffyrdd).

- Mae gan y safle fynediad at wasanaethau a chyfleusterau lleol (addysg, gwasanaethau iechyd, siopau, cyflogaeth, hamdden, hamddena, eglwysi, a sefydliadau crefyddol eraill) gan gynnwys ystyried barn y gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

- Mae gan y safle fynediad at gyfleustodau (dŵr, carthffosiaeth, draenio, casglu gwastraff, trydan, nwy, telathrebu, ac ati).

- Mae ansawdd aer a lefelau sŵn yn dderbyniol.

- Gellir rheoli perygl llifogydd ar y safle a bodloni'r meini prawf derbyniol a ddiffinnir yn TAN15.

- Nid yw'r safle wedi'i leoli ar dir ansefydlog nac ar dir halogedig na ellir ei liniaru.

- Nid yw'r safle wedi'i leoli yn agos at osodiadau peryglus neu gyrff dŵr fel dociau, afonydd a chamlesi oni bai bod lliniaru effeithiol ar waith.

- Nid yw'r safle wedi'i leoli ar dir amaethyddol ansawdd uda (Gradd 1, 2 neu 3A).

- Nid oes unrhyw effaith annerbyniol ar dirwedd, bioamrywiaeth, neu amgylchedd hanesyddol.

- Gall y safle fodloni gofynion cynllunio eraill.

**3. Cyflawnadwyedd**

- Mae modd goresgyn unrhyw gyfyngiadau ffisegol a nodwyd.

- Nid yw cyfanswm y gost (gan gynnwys unrhyw gostau annormal) yn anfantais o ran y gallu i ddatblygu'r safle.

3.3 Cymhwyswyd y meini prawf hyn yn gyson i bob un o'r 55 o safleoedd posibl.

# 4. Canfyddiadau

4.1 Cynhaliwyd yr asesiad mewn tri cham yn erbyn y meini prawf asesu yma y cytunwyd arnynt a nodir ym Mhennod 3. Cymhwyswyd Cam 1 i'r rhestr hir o 55 safle posibl gan nodi unrhyw safleoedd sydd â chyfyngiadau absoliwt megis perygl llifogydd annerbyniol, safleoedd mewn lletem werdd ddynodedig, safleoedd â chyfyngiadau ffisegol na ellid eu goresgyn a safleoedd sydd eisoes wedi'u datblygu neu sydd eu hangen at ddibenion gweithredol ac na fyddent ar gael yn yr hirdymor.

4.2 Nodwyd cyfanswm o 19 o safleoedd posibl gyda chyfyngiadau absoliwt, gan adael 36 o safleoedd i symud ymlaen i'r asesiad Cam 2. Roedd asesiad Cam 2 yn cynnwys asesiad manylach o'r safleoedd a arhosodd yn y broses ar ôl yr asesiad Cam 1. I lywio hyn, cynhaliwyd proses ymgynghori ehangach a gofynnwyd am farn arbenigol gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal â'r holl adrannau priodol ar draws y Cyngor (Ecolegydd, Priffyrdd, Ystadau Strategol, Datblygu Economaidd, Priffyrdd, Addysg, Rheoli Gwastraff, Rheoli Llygredd, Swyddog Coed a Draenio).

4.3 Canlyniad yr asesiad Cam 2 oedd hepgor nifer o safleoedd i gynhyrchu'r rhestr fer derfynol. Roedd y rhesymau dros hepgor yn cynnwys:

- Lleoliad o fewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA).
- Effaith annerbyniol ar yr amgylchedd hanesyddol.
- Tir o dan brydles hirdymor at ddefnydd arall.
- Coed wedi eu gwarchod
- Materion carthffosiaeth.
- Mae'r tir yn safle datblygu allweddol mewn rhaglen adfywio barhaus.
- Tir sy'n rhan o ddyraniad mwy yn y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Safle Cyflogaeth Strategol.
- Cyfamod ar dir at ddibenion draenio neu hamdden yn unig.
- Problemau capasiti draenio, a
- Tir lle roedd materion yn codi o ran cyfanswm y gost gan ei fod bellach yn y broses o gael ei werthu / ei ddefnyddio at ddefnydd preswyl neu fusnes neu ei fod yn ofynnol at ddibenion gweithredol.

4.4 Ar y pwynt hwn daeth yn amlwg nad oedd yn bosibl nodi safle tramwy addas drwy'r broses.

4.5 Gan fod y safleoedd ar y rhestr fer i gyd wedi'u lleoli yn agos at ei gilydd, cynhaliwyd asesiad cam 3 pellach i benderfynu ar y safle gorau i'w gymryd ymlaen, gan edrych ar fesurau lliniaru posibl, addasrwydd cymharol, a'r gallu i gyfrannu at yr angen a glustnodwyd.

4.6 Arweiniodd hyn at glustnodi dyraniad Lawnt Pengam fel y safle a ffefrir am y rhesymau canlynol:

- Mynediad derbyniol a diogel.
- Mynediad da at gyfleusterau a gwasanaethau lleol
- Dangosodd ymgynghoriad â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr gefnogaeth eang i'r safle.
- Argaeledd dwy/trydan/dŵr
- Dim materion cyfreithiol neu berchnogaeth.
- Effaith lleiaf ar y dirwedd.
- Dim Effaith ar yr amgylchedd hanesyddol.
- Dim effaith ar ansawdd tir amaethyddol.
- Gellir tirlunio a chyflwyno'r safle fesul cam; ac
- Cost cyflawni

4.7 Ers adnabod y safle hwn yn safle a ffefrir, mae gwaith sylweddol wedi dechrau i baratoi ar gyfer cyflwyno cais cynllunio ar gyfer y safle. Mae hyn wedi cynnwys, arfarniad manwl o'r safle, cwblhau briff dylunio, penodi tîm dylunio, arolygon topograffig manwl o'r safle, astudiaethau bioamrywiaeth, astudiaethau perygl llifogydd, arolwg coed, chwiliadau cyfleustodau, mapio cyfyngiadau a chyfleoedd a dyluniadau cynllun lleiniau.

4.8 Trwy'r broses hon, archwiliodd y Cyngor y potensial i ddiwallu anghenion trwy nifer o safleoedd llai. Fodd bynnag, nid oedd llawer o safleoedd llai ar gael neu ni ellid eu cyflawni, roedd rhai yn rhy gyfyng i allu darparu amodau byw diogel neu dderbyniol ac eraill yn gallu darparu nifer fach iawn o leiniau. Roedd graddfa angen Caerdydd (117 o leiniau parhaol) yn golygu na allai safleoedd llai ar eu pennau eu hunain fodloni rhwymedigaethau statudol.

# 5. Casgliadau

5.1 Daeth dyraniad Lawnt Pengam i'r amlwg fel yr unig safle sy'n gallu cyflawni cyfran sylweddol o'r angen a nodwyd. Roedd ei ddewis yn seiliedig ar:

- Argaeledd tir – mae'r Cyngor yn berchen ar y safle hwn ac ardal ehangach Lawnt Pengam.
- Capasiti i ddarparu hyd at 80 o leiniau mewn dull fesul cam.
- Integreiddio â chynigion adfywio a seilwaith ehangach ar gyfer safle ehangach Lawnt Pengam.
- Potensial ar gyfer lliniaru perygl llifogydd, bioamrywiaeth, sŵn, ac effeithiau ar ansawdd aer.
- Cyflawnadwyedd o fewn cyfnod y cynllun.

5.2 Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw'r safle heb gyfyngiadau, ond daeth yr asesiad i'r casgliad y gellir mynd i'r afael â'r rhain drwy:

- Arolygon perygl llifogydd ac ecolegol manwl, a lliniaru.
- Asesiadau sŵn ac ansawdd aer.
- Gwelliannau seilwaith
- Mesurau uwchgynllunio a dylunio.

5.3 Mae'r materion hyn bellach yn cael eu datrys trwy waith manwl i lywio cyflwyno cais cynllunio ar gyfer y safle yn ddiweddarach eleni.

5.4 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y ALlSTh yn nodi angen am 10 llain tramwy. Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd uchod, nid oedd yn bosibl clustnodi safle addas drwy'r broses asesu hon. O ystyried hyn, mae'r Cyngor yn gweithio gydag awdurdodau cyfagos ar ymagwedd rhanbarthol, ac mae astudiaeth wedi'i chomisiynu gan Lywodraeth Cymru sy'n edrych ar ddarpariaeth tramwy ledled Cymru i lywio'r broses hon.

5.5 Mae'r Cyngor o'r farn bod y broses hon yn darparu asesiad cadarn yn unol â pholisi a chanllawiau cenedlaethol. Mae'r asesiad wedi cymhwyso meini prawf asesu cytunedig, tryloyw a chadarn i ystod eang o safleoedd posibl. Mae hyn wedi cynnwys asesiad o gyfyngiadau amgylcheddol, cymdeithasol, iechyd a chyflawnadwyedd ac ymgysylltu â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

5.6 Daeth yr asesiad i'r casgliad bod Lawnt Pengam yn cynrychioli'r opsiwn mwyaf realistig a chyflawnadwy â’r gallu i ddiwallu cyfran sylweddol o'r angen a nodwyd. Mae'r Cyngor o'r farn bod y broses yn gadarn, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn cydymffurfio â dyletswyddau statudol.

# Atodiad 1: Tabl sy'n crynhoi asesiad o safleoedd posibl

| Enw’r Safle | 1. Argaeledd | | 2. Addasrwydd Safle | | | | | | | | | | | | | 3. Cyflawnadwyedd | | Dileu cam | Rheswm dros ddileu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cyfyngiadau Polisi | | Cyfyngiadau Ffisegol | | | | | | | | | | | | | | |
| | Eiddo i'r Cyngor neu'n berchennog tir (cyhoeddus neu breifat) sy’n fodlon gwerthu i'r Cyngor | Dim problemau cyfreithiol neu berchnogaeth megis i. Perchnogaeth luosog ii. Lleiniau pridwerth iii. Tenantiaethau | Ddim o fewn dynodiad rhyngwladol (AGA, ACA, RAMSAR) | Nid yw'n cyfaddawdu dynodiadau a gydnabyddir yn genedlaethol neu'n lleol (SoDdGA, SoBCN, GNL, SGBRh, ATA, Henebion, Adeiladau Rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth, Ardaloedd Archaeolegol Sensitif, Parciau a Gerddi | Mynediad derbyniol a diogel i. y ffordd, llwybr troed, a'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus (yn achos safle tramwy byddai’n rhaid iddo fod i’r prif rwydwaith priffyrdd) | ii. gwasanaethau a chyfleusterau lleol (addysg, gwasanaethau iechyd, siopau, cyflogaeth, hamdden, hamdden, eglwysi, a sefydliadau crefyddol eraill) gan gynnwys ystyried barn y gymuned Sipsiwn a Theithwyr | iii. cyfleustodau (dŵr, carthffosiaeth, draenio, casglu gwastraff, trydan, nwy, telathrebu ac ati) | Ansawdd aer a lefelau sŵn yn dderbyniol | Perygl Llifogydd | Ddim ar dir ansefydlog | Ddim wedi ei leoli ar dir halogedig | Ddim yn agos at osodiadau peryglus neu gyrff dŵr oni bai bod lliniaru effeithiol ar waith | Ddim wedi ei leoli ar dir amaethyddol o ansawdd uchel (1,2,3a) | Effaith annerbyniol ar dirwedd, bioamrywiaeth, neu amgylchedd hanesyddol | Yn gallu bodloni gofynion cynllunio eraill | Mae’r cyfyngiadau ffisegol a nodwyd yn gallu cael eu goresgyn | Nid yw cyfanswm y gost (gan gynnwys unrhyw gostau annormal) yn anfantais o ran gallu'r safle i gael ei ddatblygu | | |
| 1. Newlands Road, Gwynllŵg (CAR001) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **2** | Lleoliad y safle o fewn Ardal Gyflogaeth Bresennol sy'n wedi'i ddiogelu ar gyfer dibenion cyflogaeth |
| 2. Ynys House, Heol yr Ynys, Tongwynlais (CAR002) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **1** | Annerbyniol perygl llifogydd |
| 3. Maes Carafannau Ffordd Rover,<br><br>Ffordd Rover, Lawnt Pengam (CAR003) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **1** | Dim capasiti ar gyfer estyniad |
| 4. Shirenewton<br><br>Safle Sipsiwn, Heol Gwynllŵg, Gwynllŵg (CAR004) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **1** | Dim capasiti ar gyfer estyniad |
| 5. Tir yn ffinio â Ffos Rhosog Fawr, Heol Gwynllŵg (CAR005) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **2** | Safle mewn SoDdGA a byddai dwysáu pellach ar y safle yn cynyddu’r effaith. Safle ddim yn eiddo i’r Cyngor, gallai cyfanswm y gost fod yn anfantais i ddatblygu’r safle ymhellach. |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 6. Y Cae Merlod, Ffordd Gwynllŵg (CAR006) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **2** | Y safle wedi'i leoli mewn SoDdGA a byddai dwysáu pellach ar y safle yn cynyddu'r effaith. Safle ddim yn eiddo i'r Cygnor a gallai cyfanswm y gost fod yn anfantais o ran gallu'r safle i gael ei ddatblygu |
| 7. New Farm Yard, Heol Gwynllŵg (CAR007) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **2** | Safle ddim yn eiddo i'r Cygnor a gallai cyfanswm y gost fod yn anfantais o ran gallu'r safle i gael ei ddatblygu |
| 8. Tir ger K&L Dismantlers, Ffordd Gwynllŵg, Gwynllŵg (CAR008) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **1** | Dim capasiti ar gyfer estyniad |
| 9. Fferm Pont Trelái, Dyfrig Road, Trelái (CAR025) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **1** | Nid yw'r safle ar gael fel rhan o gynllun datblygiad preswyl |
| 10. Pentir y Frenhines Alexandra (CAR026) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **2** | Safle nad yw ym mherchnogaeth y Cyngor ac a glustnodwyd at ddefnyddiau eraill |
| 11. Hen Faes Parcio Porth y Frenhines (CAR028) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **2** | Safle nad yw ym mherchnogaeth y Cyngor ac wedi'i glustnodi ar gyfer defnyddiau eraill |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 12. Tir yn Ardaloedd 9-12, Llaneirwg (CAR029) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **3** | Mynediad gwael ac effaith bosibl ar fuddiannau cadwraeth natur a'r amgylchedd hanesyddol |
| 13. Trowbridge Mawr – Tir i'r gorllewin o Trowbridge Road, i'r de o Greenway Park ac i'r gogledd o Heol Gwynllŵg (CAR030) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **3** | Effaith bosibl ar fuddiannau cadwraeth natur a'r amgylchedd hanesyddol |
| 14. Tir i'r dwyrain o Rhodfa'r Gypreswydden, Llaneirwg (CAR032) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **2** | Nid yw'r safle ar gael fel rhan o safle Cyflogaeth strategol y CDLl site |
| 15. Tir yn Brindley Road, Lecwydd (CAR039) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **2** | Nid yw'r safle ar gael am fod angen rhan ohono at ddibenion gweithredol a'r gwerthwyd y gweddill yn ddiweddar gan y Cyngor |
| 16. Ysbyty Rookwood (CAR043) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **2** | Safle wedi'i nodi ar gyfer defnyddiau eraill ac effaith annerbyniol ar yr amgylchedd hanesyddol |
| 17. Hen safle Ysbyty Lansdowne (CAR044) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **2** | Safle nad yw'n eiddo i'r Cyngor ac wedi ei glustnodi ar gyfer datblygiad preswyl |
| 18. Safleoedd Ysbyty'r Eglwys Newydd (CAR047) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **2** | Safle wedi'i glustnodi ar gyfer datblygiad preswyl ac effaith annerbyniol ar yr amgylchedd hanesyddol |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 19. Ysgol Greenhill, Heol Brynglas, Rhiwbeina (CAR101) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **1** | Safle wedi'i nodi ar gyfer defnyddiau eraill |
| 20. Lawnt Fowlio ac ardal Chwarae Meithrin Gerddi Howard (CAR103) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **2** | Safle yn rhy fach ac wedi'i glustnodi ar gyfer defnyddiau eraill |
| 21. Tir ger Campws Llandaf (CAR104) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **2** | Safle ddim ar gael oherwydd prydles |
| 22. Campws Preswyl Plas Gwyn, Heol Llantrisant, Llandaf (CAR105) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **2** | Safle wedi'i glustnodi ar gyfer defnyddiau eraill ac effaith annerbyniol ar y amgylchedd hanesyddol |
| 23. Tir ym Mhont Treláí (CAR121) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **1** | Datblygwyd y safle ar gyfer tai |
| 24. Tir oddi ar High Corner, Pentyrch (CAR133) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **1** | Safle yn rhy fach |
| 25. Tir yn Llaneirwg (CAR157) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **2** | Safle wedi'i leoli mewn SoDdGA |
| 26. Tir yn Heol Gwynllŵg (CAR158) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **2** | Safle wedi'i leoli mewn SoDdGA |
| 27. Tir yn Siop Fferm Draenen Pen-y-graig, Capel Gwilym Road (CAR160) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **1** | Safle wedi'i leoli yn y Lletem Las |
| 28. Tir yn Oxford Street (CAR162) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **1** | Safle rhy fach |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 29. Tir yn Sea Bank Farm (CAR163) | | | | | | | | | | | | | | | | | | 2 | Safle wedi'i leoli mewn SoDdGA |
| 30. Tir yn Llaneirwg (CAR165) | | | | | | | | | | | | | | | | | | 2 | Safle wedi'i leoli mewn SoDdGA |
| 31. Tir yng Ngwynllŵg (CAR166) | | | | | | | | | | | | | | | | | | 2 | Safle wedi'i leoli mewn SoDdGA ac â chyfamod sy'n llywio defnydd |
| 32. Ardal 9/12 (HP safle llai) (Safle newydd 1) | | | | | | | | | | | | | | | | | | 2 | Cytundeb datblygu wedi'i lofnodi ar gyfer defnydd preswyl |
| 33. Estyniad i Safle Ffordd Rover (Safle Newydd 2) | | | | | | | | | | | | | | | | | | 1 | Dim sgôp ar gyfer estyniad hyd nes y bydd uwchgynllunio pellach ar ardal Lawnt Pengam Green area |
| 34. Ffordd Lamby (Safle Newydd 3) | | | | | | | | | | | | | | | | | | 2 | Angen y safle at ddibenion gweithredol |
| 35. Safle Parcio a Theithio Rhodfa'r Dwyrain (Safle Tramwy) (Safle Newydd 4) | | | | | | | | | | | | | | | | | | 1 | Perygl llifogydd annerbyniol |
| 36. Shirenewton Estyniad 1 ( Safle Newydd 5) | | | | | | | | | | | | | | | | | | 2 | Safle wedi'i leoli mewn SoDdGA |
| 37. Shirenewton Estyniad 2 (Cyfnewid tir) (Safle Newydd 6) | | | | | | | | | | | | | | | | | | 2 | Safle wedi'i leoli mewn SoDdGA |
| 38. Cornel Rhodfa Gwynllŵg/Mardy Road (Safle Newydd 7) | | | | | | | | | | | | | | | | | | 2 | Safle wedi'i leoli mewn SoDdGA |
| 39. Safle'r Lanfa Hofrenyddion (Safle Newydd 8) | | | | | | | | | | | | | | | | | | 2 | Angen y safle at ddibenion gweithredol |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 40. Dyraniad arfaethedig Lawnt Pengam (Safle Newydd 9) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | **Safle a Ffefrir** |
| 41. Ysgol Uwchradd Llanrhymni (Safle Newydd 10) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **2** | Cytundeb datblygu wedi'i lofnodi at ddefnydd preswyl |
| 42. Y Ganolfan Tenis Genedlaethol (Safle newydd 11) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **2** | Cyfamod ar y safle ar gyfer dibenion hamdden |
| 43. Maes Parcio Llyn Hendre (Safle newydd 12) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **1** | Angen y safle at ddibenion gweithredol |
| 44. Capel Gwilym Road (safle newydd 13) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **1** | Safle wedi'i leoli yn y Lletem Las a'i angen at ddibenion gweithredol |
| 45. Lawnt Trowbridge/Heol Crucywel (Safle newydd 14) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **2** | Angen y safle at ddibenion gweithredol |
| 46. Pen-y-Bryn (Safle newydd 15) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **2** | Angen y safle at ddibenion gweithredol |
| 47. Canolfan Gymunedol, Llaneirwg (Safle newydd 16) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **1** | Angen y safle at ddibenion gweithredol |
| 48. Nettlefold Road (Safle newydd 17) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **1** | Safle rhy fach a'i angen at ddibenion gweithredol |
| 49. Cornel Heol Greenway/Heol Gwynllŵg (Safle newydd 18) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **2** | Nid yw'r safle ar gael am ei fod ar brydles at ddibenion pori |
| 50. Canolfan Ailgylchu, Heol Waungron, Y Tyllgoed (Safle newydd 19) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **1** | Angen y safle at ddibenion gweithredol |
| 51. Clos Bessemer, Grangetown (Safle | | | | | | | | | | | | | | | | | | **2** | Angen y safle at ddibenion gweithredol |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1) (Safle newydd 20) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 52. Clos Bessemer, Grangetown (Safle 2) (Safle newydd 21) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **2** | Safle wedi ei werthu at ddefnyddiau eraill |
| 53. Tir yn Heol yr Eglwys, Pontprennau (Safle newydd 22) | | | | | | | | | | | | | | | | | | **2** | Safle wedi'i glustnodi ar gyfer defnyddiau preswyl |
| 54. Tir yn New Mill Farm, Mill Lane, Llanrhymni | | | | | | | | | | | | | | | | | | **1** | Perygl llifogydd annerbyniol |
| 55. Cwt y Sgowtiaid a'r tir cyfagos oddi ar Cemaes Crescent, Trowbridge | | | | | | | | | | | | | | | | | | **1** | Angen y safle at ddibenion gweithredol |